



YSTOD OEDRAN: 3 - 7 OED

Diwrnod allan gydag Ed a Bunny



Am beth mae e?

Mae'r gweithgaredd hwn yn dilyn *Ed a Bunny yn Ennill Peth Arian* a dylid ei gwblhau ar ôl darllen y llyfr stori, sydd ar gael fel eLyfr ar blatfform Arwyr Arian.

Mae 'Nid yw arian yn tyfu ar goed' yn aml yn cael ei roi fel ymateb i blentyn sy'n dweud 'Rydw i eisiau'. Ar ôl darllen *Ed a Bunny yn Ennill Peth Arian*, bydd y gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd i blant drafod o ble y daw arian ac yn eu helpu i ddechrau deall bod arian yn adnodd cyfyngedig y byddant yn dysgu ei reoli. Mae'r gweithgaredd yn gofyn i'r disgyblion helpu Ed a Bunny i gynllunio diwrnod allan gan ddefnyddio'r arian maen nhw wedi'i gynilo, gweithio allan faint fydd cost y daith a beth gallen nhw ei wneud o ystyried eu cyllideb.

Amcanion dysgu

Bydd y gweithgaredd hwn yn ymdrin â'r amcanion dysgu canlynol o Fframweithiau Cynllunio Addysg Ariannol Young Money:

Rheoli risgiau ac emosiynau sy'n gysylltiedig ag arian: Cynilo arian

- Rwy'n gwybod y gallaf gynilo fy arian i'w ddefnyddio yn nes ymlaen yn lle ei wario i gyd nawr.

Rheoli risgiau ac emosiynau sy'n gysylltiedig ag arian: Cadw arian yn ddiogel

- Gallaf ddewis lle diogel i gadw fy arian e.e., blwch arian, pwrs.

Sut mae'n gweithio...

Dechrau

Prynodd Ed goeden arian i Bunny i helpu i gadw arian yn ddiogel ac i annog Bunny i gynilo rhywfaint o arian. Bydd y gweithgaredd hwn yn edrych ar pam ei bod yn syniad da cynilo ar gyfer rhai pethau.

Dywedwch wrth y disgyblion fod Bunny wedi bod yn defnyddio'r Goeden Arian newydd ac wedi llwyddo i gynilo rhywfaint o arian. Mae Ed a Bunny wedi penderfynu mynd ar daith diwrnod gan ddefnyddio'r arian y maent wedi'i gynilo.



Bod yn ddefnyddiwr beirniadol: Dewisiadau ynghylch cynilo a gwario

- Gallaf wneud cynllun syml ar gyfer fy newisiadau cynilo a gwario a chadw ato.

A all eich disgyblion eu helpu i benderfynu ble i fynd? Ar y bwrdd gwyn, gwnewch ddwy restr a gofynnwch i'ch disgyblion gyfrannu eu syniadau:

Rhestr 1:

Llefydd gwahanol i ymweld â nhw, h.y. amgueddfa neu oriel gelf, taith i'r traeth, archwiliad o goetir neu barc lleol.

Rhestr 2:

Pethau y byddai Ed a Bunny angen arian ar eu cyfer ar eu taith, h.y., i brynu cofrodd neu hufen iâ.



**HYD Y
GWEITHGAREDD**

30 munud



BYDD ANGEN...

- Papur
- Peniau neu bensiliau lliw
- Bwrdd gwyn neu siart troi a beiro
- Templed Darnau Arian ac Arian Papur
Templed ar gael
- Cofnod Cynilo a Gwario
Templed ar gael
- Traciwr Cyllideb
Templed ar gael

GEIRFA ALLWEDDOL

Fforddio	Treuliau
Swm	Arian
Cyllideb	Pris
Prynu	Pwrs
Darnau Arian	Cynilo
Cost	Gwario



Prif Weithgaredd

1. Rhowch y disgyblion mewn parau neu grwpiau a rhowch 10 munud iddynt dynnu llun un lle o'r rhestr ar y bwrdd gwyn. Yn y cyfamser, rhowch ddarnau arian plastig sy'n hafal i gyllideb o'ch dewis e.e. £20 mewn darnau arian (neu fe allech chi ddefnyddio'r **templed Darnau Arian ac Arian Papur**). Rhowch wybod iddynt mai dyma'r holl arian y mae Ed a Bunny wedi'i gynilo yn eu Coed Arian.
2. Unwaith y byddan nhw wedi tynnu llun o'u dewis o daith a'ch bod chi wedi rhoi eu cyllideb iddyn nhw, gofynnwch i bob pâr feddwl am bethau y byddai Ed a Bunny angen arian ar eu cyfer ar eu taith.
3. Gofynnwch iddynt restru'r holl bethau a fyddai'n costio arian ac yna amcangyfrif faint fyddai'r rhain yn eu costio. Dylent wahanu'r rhain yn gategoriau, er enghraifft teithio, bwyd, danteithion, cofroddion ac ati.

4. Gan ddefnyddio eu cyllideb, rhowch arian o'r neilltu ar gyfer pob cost (gallai disgyblion ddefnyddio'r **templed Traciwr Cyllideb** i helpu gyda hyn). Rhowch wybod iddynt nad oes yn rhaid iddynt wario eu cyllideb i gyd a gallant gynilo rhywfaint o arian.
5. Ewch o amgylch y dosbarth a gofynnwch iddynt gyflwyno eu dewisiadau. Gallech ofyn:
 - pam ddewisoch chi'r lle hwn?
 - faint o arian fyddai ei angen ar Ed a Bunny ar gyfer y daith gyfan?
 - ar gyfer beth ydych chi wedi rhoi arian o'r neilltu?
 - a fyddai gan Ed a Bunny unrhyw arian ar ôl?

Os oes gennych chi amser ar ddiwedd y gweithgaredd, gofynnwch i'r dosbarth sut bydden nhw'n cadw eu harian yn ddiogel yn ystod y daith, megis pwrs/waled.



Awgrymiadau ar gyfer Gwahaniaethu

Yn hytrach na gofyn i'r disgyblion amcangyfrif cost pethau ar gyfer eu taith, gofynnwch iddyn nhw restru'r eitemau hynny sydd am ddim a'r rhai sy'n costio arian.

Gweithgareddau Her

Gofynnwch i'r disgyblion gyfrifo faint o amser y byddai'n ei gymryd i gynilo ar gyfer eu taith mewn gwahanol sefyllfaoedd, megis:

- cynilo £1 yr wythnos
- cynilo £1.50 yr wythnos
- gwnaethant gynilo 50c yr wythnos, ond cawsant hefyd £3 ar gyfer eu pen-blwydd y gwnaethant ei roi gyda'u cynilion
- cawsant £1 yr wythnos mewn arian poced, ond gwarion nhw 30c ar losin bob penwythnos a chynilo'r gweddill

Amrywiwch yr anhawster yn dibynnu ar allu'r disgyblion. Gallech ddefnyddio'r **templed Cofnod Cynilo a Gwario** i helpu gyda hyn.

Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd

Mathemateg

Adnabod a defnyddio symbolau ar gyfer punnoedd (£) a cheiniogau (c); cyfuno symiau i wneud gwerth penodol.

Celfyddydau Mynegiannol a Dylunio

Bod yn llawn dychymyg.

Cyfathrebu ac Iaith

Gwrandao a sylw/deall/siarad.

Gofynnwch i'r rhieni gymryd rhan a'u gwahodd i wneud y fersiwn cartref o'r gweithgaredd hwn gyda'u plentyn!

